# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1507(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Rhagfyr 2008

**At Nick Bourne:**

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 2 Rhagfyr trafodasom gynhyrchu amcangyfrifon Gwerth Ychwanegol Crynswth chwarterol ar gyfer Cymru.

Byddai'n bosibl cynhyrchu amcangyfrifon GYC chwarterol ar gyfer Cymru gan ddilyn dull tebyg i'r un y mae'r Alban yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, byddai sawl problem yn gysylltiedig â chynhyrchu'r amcangyfrifon hyn.

Yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud yw monitro economi Cymru trwy ddefnyddio nifer o ddangosyddion er mwyn creu darlun mwy cyfannol nag y gallai un dangosydd yn unig ei greu. Ymhlith y dangosyddion a ddefnyddir ar hyn o bryd mae data misol y farchnad lafur a'r dangosyddion chwarterol o ran allbynnau tymor byr. Argymhellodd arolwg Allsopp y byddai'n well asesu gweithgarwch rhanbarthol tymor byr drwy edrych ar nifer o ddangosyddion ac arolygon amserol na thrwy gynhyrchu amcangyfrifon GYC chwarterol ar gyfer pob rhanbarth. Mae'n bosibl mai cymharol ychydig o wybodaeth fyddai i'r amcangyfrifon.

Mae gan economi Cymru gyswllt agosach ag economi Lloegr nag sydd gan economi'r Alban. Byddai hynny'n dod â goblygiadau o ran ansawdd dulliau mesur llif trawsffiniol. Efallai na fyddai amcangyfrifon GYC chwarterol Cymru'n gyson ag amcangyfrifon GYC blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ar hyn o bryd mae gennym lawer yn llai o weithwyr yn gweithio ar ystadegau tebyg nag sydd gan Lywodraeth yr Alban. Byddai baich ychwanegol ar fusnesau yng Nghymru hefyd gan y byddai angen casglu data ychwanegol er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon ar yr un sail â'r Alban.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1507(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Ionawr 2009

**At David Melding:**

Yn ystod Sesiwn Holi Prif Weinidog Cymru ar 2 Rhagfyr, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i ateb i'ch cwestiwn am y ffigurau TAW diweddar a'r sialensau sy'n wynebu economi Cymru.

Rwyf wedi cael cyfle i astudio'r ffigurau hyn ymhellach. Maent yn codi nifer o bwyntiau, gan gynnwys fod 6,800 o fusnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru yn ystod 2007, sef 4.5 y cant yn fwy nag yn 2006, o'i gymharu â'r 13.0 y cant o gynnydd rhwng 2006 a 2007 yn y Deyrnas Unedig. Mae'n bosibl bod y cynnydd yn is yng Nghymru oherwydd y newid yn Ebrill 2007 yn y rheoliadau trethi ar gyfer cwmnïau gwasanaethau rheoledig. Mae cwmni gwasanaethau rheoledig yn fath o gwmni cyswllt y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau trwyddo i gleientiaid. Cafodd y cwmnïau hyn eu sefydlu er mwyn cael manteision treth.

Mae'r ffigurau sydd wedi'u rhyddhau hefyd yn dangos bod 5,700 o fusnesau wedi'u datgofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru yn ystod 2007. Fodd bynnag, roedd cyfanswm y stoc sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru i fyny 1,100 (1.3 y cant) yn ystod

2007 i 87,300 erbyn dechrau 2008, y lefel uchaf yn y gyfres ddata gyfredol a ddechreuwyd yn 1994. Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod cyfanswm y stoc TAW yng Nghymru wedi tyfu bob blwyddyn ers 1997, ac felly ar ddechrau 2008, roedd yn 9.5 y cant yn uwch nag yr oedd yn 1997, ac yn 8.5 y cant yn uwch nag yn 1999. Hefyd roedd cyfradd stoc TAW Cymru'n uwch (488 fesul 10,000 o bobl oedran gweithio) na chyfradd stoc Gogledd-ddwyrain Lloegr (330), yr Alban (442), Swydd Efrog a Humber (454) a Gogledd-orllewin Lloegr (460). Nid yw dadgofrestru yn golygu o reidrwydd fod busnes yn cau, ond mae'n bosibl fod eu trosiant wedi gostwng i o dan y trothwy TAW.

Nid oes unrhyw ddadl am yr angen i gynnal, cychwyn a meithrin busnesau yng Nghymru yn ystod y wasgfa economaidd hon. Mae'r gyfres o ymyriadau sydd ar waith i hybu busnesau yng Nghymru, yn cynnwys gwasanaethau'r model Cymorth Hyblyg i Fusnes a fydd yn defnyddio arian o Ewrop yn ystod y chwe blynedd nesaf. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cymorth i unigolion sydd am ddechrau busnes, cymorth i Reoli Perthynas, a gwasanaethau cynghori a mentora ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig, arian o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl, a chymorth ychwanegol ar gyfer Adeiladu Cymru (Construct Wales) a'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr FS4B er mwyn iddynt allu cystadlu am gontractau sector preifat a chyhoeddus.

Byddwn hefyd yn parhau i ymchwilio i gamau pellach at y dyfodol yn yr Uwchgynhadledd Economaidd er mwyn helpu busnesau Cymru yn ystod y wasgfa economaidd hon gan sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnal, dechrau a meithrin y busnesau hynny.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1507(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar Ionawr 2009**

**At Michael German:**

Yn ystod Sesiwn Holi Prif Weinidog Cymru ar 2 Rhagfyr, addewais ysgrifennu atoch am y cyfraddau llog sy'n cael eu codi gan Gyllid Cymru.

Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn ei gwneud yn anodd i lawer o fusnesau gael hyd i arian buddsoddi. Yn sgil eu profiad uniongyrchol, mae llawer o gwmnïau yng Nghymru'n dweud bod banciau'r Stryd Fawr yn llai parod i fuddsoddi, a'u bod yn ogystal wedi cynyddu prisiau eu credyd.

Mae rhai banciau bellach yn cynnig cyfraddau llog sefydlog ar gyfer benthyciadau bach. Er enghraifft, gall Royal Bank of Scotland drefnu benthyciad o hyd at £15,000 am 10 mlynedd ar gyfradd sefydlog o 10.4 y cant. Gall banciau eraill, fel HSBC, gynnig rhwng 7.9 y cant ac 14.9 y cant ar gyfer benthyciadau o hyd at £15,000, gyda'r gyfradd yn y pen draw yn dibynnu ar gadernid credyd y busnes a'r warant sydd ar gael.

Creodd Llywodraeth y Cynulliad Gyllid Cymru er mwyn darparu buddsoddiadau masnachol ar gyfer busnesau na allant gael – neu sy'n ei chael hi'n anodd cael - y buddsoddiad llawn sydd ei angen arnynt o ffynonellau masnachol eraill. Mae Cyllid Cymru'n parhau i fuddsoddi mewn busnesau bach a chanolig sydd â'u prif swyddfeydd yng Nghymru, ac ar ôl cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau, bu cynnydd hefyd, yn uwch nag unrhyw flwyddyn arall, yn nifer ei fuddsoddiadau yn ystod 2008/2009. Erbyn diwedd Hydref 2008, roedd cyfanswm y buddsoddiadau wedi cyrraedd £12 miliwn o'i gymharu â £6.5 miliwn yn Hydref 2007.

Mae'r cyfraddau llog a godir ar fenthyciadau Cyllid Cymru yn cael eu pennu yn ôl yr achos unigol, gan ddibynnu ar y peryglon sydd ynghlwm â gweithgarwch busnes penodol ac yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfraddau cyfeirio. Mae rheoliadau'r Comisiwn yn gofyn bod cyfraddau llog Cyllid Cymru'n cael eu pennu rhwng 4 a 10 y cant yn uwch na chyfradd gyfeirio Ewrop ar gyfer y DU ( sef 5.66 y cant ar hyn o bryd). Mae cyfraddau

cyfeirio'n cael eu pennu gan y Comisiwn yn seiliedig ar gyflwr y farchnad er mwyn sicrhau bod cymorth gwladol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

O ran ei gylch gwaith, mae Cyllid Cymru'n aml yn buddsoddi mewn busnesau sydd â gwarant gyfyngedig neu sydd heb warant ac sy'n fwy o risg. Ers 2001, tua 10.5 y cant yw cyfartaledd y gyfradd sydd wedi'i gosod ar y 934 o fenthyciadau gan Gyllid Cymru sy'n parhau'n gyfredol (h.y. y rhai sydd heb eu had-dalu'n llawn hyd yn hyn).

Ni chaniateir i Gyllid Cymru gystadlu o ran eu prisiau â chyllidwyr preifat, ac ni fyddai'n ceisio gwneud hynny. Yn wir, nid banc ydyw, ac felly mae ei bortffolio gwasanaethau a'i strwythur costau yn bur wahanol i eiddo'r banciau. Fodd bynnag, mae'n glir fod ei bolisi prisiau'n debyg i bolisïau prisiau banciau'r Stryd Fawr, er ei fod yn gweithredu'n unol â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfraddau cyfeirio.

Ers i Gyllid Cymru ddechrau ar ei waith yn 2001, mae wedi buddsoddi £106 miliwn trwy drefnu mwy na 2,000 o fuddsoddiadau (ecwiti, benthyciadau a mesanîn), ac mae hyn wedi denu £319 miliwn pellach o fuddsoddiadau o'r sector preifat. Mae buddsoddiadau Cyllid Cymru hefyd yn helpu busnesau i gael at gyfalaf ychwanegol i godi digon o arian, sef rhywbeth pwysig iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y llynedd, buddsoddodd Cyllid Cymru £20.8 miliwn mewn busnesau yng Nghymru trwy 185 o fuddsoddiadau. O'r rhain roedd 151 yn gyfuniad â buddsoddiadau gan bartneriaid ariannol eraill, gan gynnwys banciau'r Stryd Fawr ac unigolion fel angylion busnes.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1514(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Ionawr 2009

**At Darren Millar:**

Yn ystod Sesiwn Holi Prif Weinidog Cymru ar 2 Rhagfyr, gofynnoch beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu cleifion canser yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd talu biliau tanwydd uchel y gaeaf yma.

Mae tri ffactor pwysig yn cyfrannu at dlodi tanwydd: prisiau ynni, incwm, ac effeithlonrwydd ynni'r cartref y mae rhywun yn byw ynddo. Mae'r ddau ffactor cyntaf gan mwyaf y tu allan i reolaeth Llywodraeth y Cynulliad, er ein bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU ac Ofgem i gyflwyno camau i helpu lleddfu'r problemau hyn. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl fwy uniongyrchol o ran y trydydd ffactor sy'n achosi tlodi tanwydd, sef effeithlonrwydd ynni'r cartref. Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yw ein prif raglen ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem benodol hon. O dan y rhaglen hon, rydym yn edrych ar hawl teuluoedd i fudd-daliadau yn ogystal â nifer o fesurau arbed ynni gan gynnwys inswleiddio waliau ceudod.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn unol â'n hymrwymiad i helpu'r rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd, mae cyllid y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref wedi cynyddu'n sylweddol,. Er enghraifft, yn 2004/05 £14.5 miliwn oedd cyllideb y cynllun hwn. Yn 2008/09 roedd y gyllideb yn £19.8 miliwn, a bydd y cyhoeddiad diweddar gan y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn sicrhau y bydd arian ychwanegol ar gael i helpu'r rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol.

Gan ei fod yn un o ymrwymiadau Cymru'n Un, rydym wrthi'n datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar hwn yn Chwefror 2009. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun yn cwmpasu adolygiad o'n Strategaeth Tlodi Tanwydd a'n Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, a meini prawf a thargedu fydd ymhlith y pynciau pwysig y byddwn yn rhoi sylw iddynt yn yr ymgynghoriad.

Ar 24 Tachwedd, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys Alistair Darling yn ei adroddiad rhag-gyllidebol ei fod yn cynyddu'r credyd treth plant, yn dwyn y cynnydd ym mis Ebrill yn y Budd-dal Plant ymlaen i fis Ionawr, a'i fod yn rhoi taliad o £60 sy'n gyfwerth â dwyn ymlaen y cynnydd i bensiwn sylfaenol y wlad a oedd i fod i ddigwydd ym mis Ebrill, i bob pensiynwr. Daw'r mesurau hyn â budd i nifer o gleifion canser yng Nghymru.

Bydd Jane Davidson yn cyfarfod â Cath Lindley o Gymorth Canser Macmillan cyn bo hir i drafod materion pwysig gan gynnwys materion tlodi tanwydd sy'n berthnasol i gleifion canser yng Nghymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1517(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 18 Chwefror 2009**

**At Alun Cairns:**

Yn ystod cwestiynau Prif Weinidog Cymru ar 2 Rhagfyr gwnaethoch holi pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i gynyddu pwerau'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o ran y gallu i gael gafael ar ddata ynghylch plant byddar mewn ysgolion ledled Cymru. Ymddiheuraf am yr oedi cyn eich ateb.

Nid yw'n fwriad gennym ar hyn o bryd i ehangu pwerau'r Gweinidog o ran cael gafael ar ragor o ddata ynghylch plant byddar mewn ysgolion ledled Cymru. Y rheswm am hyn yw ein bod eisoes un ai wedi ymgymryd â pholisïau neu'n bwriadu gwneud hynny yn ystod y blynyddoedd nesaf a fydd yn gwella'r modd y cesglir ac y cyhoeddir data ynghylch plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), gan gynnwys y rhai â nam ar eu clyw.

Hyd yma rydym wedi defnyddio pwerau o dan Ddeddf Addysg 1996 drwy lunio is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) a/neu gyrff llywodraethu ysgolion gasglu data a chyhoeddi gwybodaeth am faterion yn ymwneud â darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag AAA.

Yn fwy diweddar, rydym wedi llunio rheoliadau yng Nghymru er mwyn gwella'r modd y cesglir data a sicrhau y darperir gwybodaeth fwy ystyrlon a pherthnasol am ddisgyblion ag AAA, sef Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007. Mae ein dull o gasglu data drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) eisoes yn casglu gwybodaeth o'r fath, ac mae'n mynd gam ymhellach na Deddf Gwybodaeth am AAA 2008 sy'n berthnasol i Loegr. Wrth i ysgolion ddefnyddio'r CYBLD gallant gofnodi dau fath o AAA ar gyfer pob disgybl, gan ddiffinio un fel y prif angen a'r llall fel angen eilaidd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion sydd â nam ar eu clyw, a allai gael ei ystyried fel eu hangen eilaidd, yn cael eu cynnwys yn y data cyffredinol. Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod y mathau o AAA yn cael eu cofnodi'n gywir.

Yn dilyn adolygiad y cyn Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o AAA a'r diwygiad o'r fframwaith asesu a datganiadau statudol presennol yng Nghymru aethom ati i gynnal ymgynghoriad cychwynnol ynghylch opsiynau posibl ar gyfer newid. Gwnaethom ymgynghori â rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r sector gwirfoddol ar draws Cymru. Yn sgil yr ymgynghoriad cychwynnol hwn rydym wedi cynnig nifer o brosiectau peilot a gynlluniwyd i brofi gwahanol ddewisiadau eraill yn lle'r fframwaith asesu statudol presennol yng Nghymru. Mae un o'r cynlluniau peilot yn ceisio datblygu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwerthuso a monitro'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y cynllun peilot hwn yn canolbwyntio ar asesu, casglu data a datblygu gwell mesurau o ganlyniadau ar gyfer disgyblion sydd ag AAA.

Yn dilyn y rhaglen beilot rydym yn disgwyl cyflwyno deddfwriaeth y cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn ei chylch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn bwysicach fyth sy'n ennyn hyder rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.

Cytunaf yn llwyr â barn y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod hwn yn gyfle i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â rhaglen beilot, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill allweddol gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol. Bydd y rhaglen beilot hon yn arwain yn y pen draw at system arloesol a llawer iawn gwell lle y bydd anghenion disgyblion sydd ag ADY yn cael eu bodloni a lle y byddant yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.